*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ebrill 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-30** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (SATC) ar gyfer 2026–2030, gan gyflwyno i'r Aelodau y fframwaith ariannol sy'n cefnogi darpariaeth Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2024–2029 ac sy'n nodi rhagolygon ariannol, risgiau a rhagdybiaethau cynllunio tymor canolig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r SATC yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn sicrhau'r adnoddau ar gyfer cyflawniad y CRhRC dros y cyfnod 2026–2030, gan sicrhau aliniad rhwng blaenoriaethau gweithredol, y cyllid sydd ar gael a chyfrifoldebau statudol.

3 Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol oherwydd chwyddiant, ansicrwydd cyflogau, pwysau ariannu cyfalaf a chyflwyniad costau Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (RhGB).

4 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau i fod yn gynaliadwy, wedi'i chefnogi gan arbedion effeithlonrwydd wedi'u cynllunio, y defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn a dull strwythuredig o reoli risg ariannol.

5 Darperir gofynion ardoll dangosol a rhaglen gyfalaf i gefnogi blaengynllunio gan awdurdodau lleol cyfansoddol a byddant yn destun cymeradwyaeth a chraffu blynyddol.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Cyflwynwyd y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-2030 i'r Pwyllgor Archwilio i'w graffu yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2026. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y strategaeth i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

## ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Gymeradwyo Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026 - 2030**

## CEFNDIR

8 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod osod cynllun ariannol cytbwys, cynaliadwy sy'n cefnogi cyflawniad y CRhRC.

9 Mae'r SATC yn darparu'r cyd-destun ariannol tymor canolig, gan nodi rhagdybiaethau ar gyflogau, prisiau, cyllid cyfalaf, cronfeydd wrth gefn a chyllid disgwyliedig. Mae'n sicrhau tryloywder ar gyfer Aelodau ac awdurdodau cyfansoddol ac yn llywio'r broses gosod y gyllideb flynyddol.

## GWYBODAETH

10 Mae'r Strategaeth yn cadarnhau'r pecyn ariannol arfaethedig ar gyfer 2026–2030, gan gynnwys:

- y ffactorau pennaf sy'n rheoli costau (cyflogau, chwyddiant, ystadau, fflyd, RhGB)
- effeithiau'r rhaglen gyfalaf, gan gynnwys datblygu Hwb Awen (yn amodol ar gyllid allanol)
- y strategaeth cronfeydd wrth gefn a'r proffil tynnu i lawr wedi'i gynllunio
- modelu ardoll dangosol ar gyfer awdurdodau cyfansoddol

11 Mae'r cynllun cyfalaf 10 mlynedd yn parhau i fod yn elfen allweddol o gynllunio tymor canolig, gyda rhagolygon am wariant sylweddol yn 2027/28 a 2028/29.

12 Mae'r Strategaeth yn ymwreiddio ymagwedd strwythuredig tuag at effeithlonrwydd, gyda gwelliannau mewn cynhyrchiant ac arbedion nad ydynt yn arian parod ac sy'n rhyddhau arian parod targedig.

13 Mae'r holl ragdybiaethau manwl, tablau a modelu wedi'u cynnwys yn y ddogfen SATC lawn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r SATC yn cefnogi Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth trwy sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu halinio â lleihau risg hirdymor, effeithiolrwydd gweithredol a chynaliadwyedd. |
| Cyllideb | Mae'r SATC yn gosod y paramedrau cynllunio ar gyfer cyllidebau'r dyfodol, gan ymgorffori chwyddiant, cyflogau, cyllid cyfalaf a chostau'r RhGB, ochr yn ochr ag effeithlonrwydd a'r defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb fantoledig bob blwyddyn o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r SATC yn tanategu'r gofyniad cyfreithiol hwn trwy ddarparu fframwaith cynllunio tymor canolig cadarn. |
| Staffio | Mae dros 70% o wariant yn ymwneud â staffio. Mae dyfarniadau cyflog, heriau recriwtio a chynllunio'r gweithlu yn parhau i fod yn ystyriaethau ariannol allweddol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r ystyriaethau hyn yn rhan annatod o gynllunio ariannol a byddant yn parhau i gael sylw trwy ddarpariaeth y CRhRC a phrosesau gosod y gyllideb flynyddol. |
| Risgiau | Mae risgiau pennaf yn cynnwys ansicrwydd ynghylch setliadau cyflog cenedlaethol, chwyddiant heb fod yn gyflogau, pwysau costau'r RhGB, symudiadau mewn cyfraddau llog a dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn i leddfu'r cynnydd a ragwelir. Mae lliniariadau wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth |